Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol - drwy e-bost

13 Awst 2013

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

**Bil a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ar 17 Gorffennaf 2013, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Bil Sector Amaethyddol (Cymru).

Mae'r Bil bellach yn y cyfnod hysbysiad o bedair wythnos (18 Gorffennaf 2013 - 14 Awst 2013). Yn ystod y cyfnod hwn, gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r cwestiwn a fyddai'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth o'r Bil, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r Goruchaf Lys i wneud penderfyniad arno (adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd Clerc y Cynulliad rhag cyflwyno'r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol.

Rwyf wedi cael hysbysiad nad yw'r Twrnai Cyffredinol yn argyhoeddedig bod y Bil yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad a'i fod yn bwriadu ei gyfeirio i'r Goruchel Lys o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rwyf wedi atodi copi o lythyr y Twrnai Cyffredinol a byddaf yn trefnu i'r llythyr, yn ogystal ag ymatebion y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gael eu cyhoeddi ar dudalen y Bil ar y we.

Yn gywir

Claire Clancy

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost/Email: Claire.Clancy@cymru.gov.uk


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**